# LLYTHYR NEWYDDION BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

## RHIFYN CYFALAF

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

West Wales Regional Partnership Board

Croeso cynnes iawn i rifyn Ionawr Llythyr Newyddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Hoffai'r tîm ddymuno blwyddyn newydd dda i chi!

Mae'r llythyr newyddion hwn yn canolbwyntio ar Swyddfa Rheoli Rhaglen Gyfalaf BPRhGC a gwaith y tîm yn ystod 2024, ac yn edrych ymlaen at 2025 a thu hwnt.

## Swyddfa Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf - Crynodeb 2024



Roedd 2024 yn flwyddyn eithriadol o brysur i Swyddfa Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf a'n partneriaid rhanbarthol yng ngorllewin Cymru. Gyda'r nifer llawn o staff a nifer mawr o brosiectau yn cefnogi trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth, wedi'u cefnogi gan y **Gronfa Tai â Gofal (HCF)** ac arian y **Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF),** digwyddodd y canlynol:

- **12 prosiect newydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer cyllid**
- **15 prosiect sy'n dod i'r amlwg wedi'u hychwanegu at y biblinell**
- **7 prosiect yn fyw ar y safle**
- **5 prosiect wedi'u cwblhau**

Mae'n ymddangos y bydd 2025 yr un mor brysur, gyda nifer o brosiectau newydd ar fin ceisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru, a phrosiectau eraill a fydd yn dechrau gwaith adeiladu ar y safle.

**Y gwersi a ddysgwyd**

- Mae ymgysylltu'n gynnar â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn hanfodol i sicrhau bod bwriadau'r ymgeisydd am grant yn hysbys, bod cymeradwyaethau a chamau amrywiol wedi'u cyflawni er mwyn cydymffurfio, a bod digon o amser ac adnoddau yn cael eu neilltuo i'r rhaglen ar ddyddiadau panel targed.
- Rhaid i'r sbardunau ar gyfer unrhyw brosiect fod yn glir; mae angen i unrhyw gynigion gael eu sbarduno gan strategaeth gwasanaeth.
- Pan dderbynnir ceisiadau ar y cyd (IRCF/HCF), dilynir proses graffu'r IRCF.
- Does dim cyfradd ymyrryd benodol ar gyfer HCF Amcan 2 nac IRCF Blaenoriaeth 3.

Er mwyn sicrhau ymgysylltiad o'r cychwyn cyntaf, byddem yn annog unrhyw ymgeisydd grant posibl i gysylltu â ni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i drafod unrhyw gysyniadau/syniadau/prosiectau ar gyfer y dyfodol, drwy e-bostio **GCCyfalafSRP@sirgar.gov.uk**

Gweithio mewn partneriaeth gyda
**Llywodraeth Cymru**
Working in partnership with
**Welsh Government**

## Rydym yn recriwtio!

Mae cyfle cyffrous ar gael i benodi dau Arweinydd Prosiect yn dilyn cyfnod mamolaeth a dyrchafiad diweddar yn y tîm presennol.

Am fwy o wybodaeth, gweler yma: Project Lead - Carmarthenshire County Council

## Dileu Elw o Lety Plant yng Ngorllewin Cymru



Nod yr agenda dileu yw dileu'r elw mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a datblygu darpariaeth gyhoeddus a di-elw o ran gofal i blant sy'n derbyn gofal, a helpu i gefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i wella canlyniadau i blant, gan roi eu buddiannau a'u hawliau wrth wraidd y penderfyniadau a wneir. Y gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau bod yr holl arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn llety a maethu yn cael ei ailfuddsoddi i gefnogi gwell canlyniadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad allweddol hwn gan y Llywodraeth wedi'i nodi yn brif flaenoriaeth ranbarthol i orllewin Cymru a bydd yn parhau felly am y 12 mis nesaf. Roedd **dros 60%** o'n gwariant ar gyfer 2023/24 ar lety plant a rhagwelir y bydd bron i **chwarter** y gwariant ar y grŵp targed hwn yn 2024/25.

Hyd yn hyn, mae gorllewin Cymru wedi cwblhau chwe phrosiect llety preswyl i blant, drwy gymorth gan y **Gronfa Tai â Gofal (HCF) gan Lywodraeth Cymru,** sydd wedi creu tua **19 uned** a buddsoddiad o oddeutu **£4.7 miliwn**. Rhagwelir y bydd hyd at chwe phrosiect preswyl arall i blant yn cael eu cwblhau yn y 24 mis nesaf*. Y gobaith yw y bydd rhai o'r prosiectau arfaethedig hyn yn cael eu hariannu drwy arian IRCF Blaenoriaeth 3. Gellir defnyddio IRCF i gefnogi caffael eiddo ymlaen llaw a ffioedd cysylltiedig drwy brosesau ymgeisio a

chymeradwyo sefydledig IRCF, a gofynnir am y costau hyn yng ngham cychwynnol y ffurflen gais.

Ar wahân i hyn, mae Swyddfa Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf yn gweithio ar draws y siroedd gyda phartneriaid i greu glasbrint dyluniad llety plant rhanbarthol y gobeithir y bydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2025 ac sy'n cael ei ariannu drwy ffrwd refeniw y **Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF)** drwy **Lywodraeth Cymru**. Mae'r darn hwn o waith yn allweddol a'i nod yw darparu atodlen llety ar gyfer llety preswyl newydd i blant, ar un llawr a dau lawr, ynghyd â dogfen gymorth ddwyieithog ategol.

**Yn amodol ar gymeradwyaeth a derbyn cyllid*













## Adnewyddu'r Cynllun Cyfalaf Strategol



Datblygwyd **Cynllun Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru** ym mis Gorffennaf 2023, ac roedd yn amlinellu gweledigaethau a dyheadau'r rhanbarth i gefnogi'r gwaith o drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion dros gyfnod o 10 mlynedd. Ers ei lunio 18 mis yn ôl, mae'r trywydd wedi esblygu yn y rhanbarth ac mae'r tîm wedi cael y dasg gan Lywodraeth Cymru o adnewyddu ei Gynlluniau Cyfalaf Strategol y mae rhan ohonynt yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol o ran buddsoddi cyfalaf yng ngorllewin Cymru. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn ddogfen allweddol i'n cynorthwyo ni yn y rhanbarth a Llywodraeth Cymru wrth gynllunio buddsoddiad mewn seilwaith ar draws Cymru yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd yn barod erbyn 31 Mawrth 2025 ac, wrth symud ymlaen, bydd y fersiwn nesaf o'r cynllun yn ceisio cynnwys ac adeiladu ar y meysydd canlynol:

- Rhoi sylw amlwg i'r broses flaenoriaethu yn y rhanbarth i roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru fod gweithdrefn gadarn yn bodoli ar lefel ranbarthol i gytuno ar flaenoriaethau buddsoddi ar y cyd.
- Ailystyried blaenoriaethau mewn perthynas â chronfa fuddsoddi genedlaethol IRCF ac unrhyw ffrydiau cyllido yn y dyfodol a fydd yn dilyn y cylch cyllido presennol, a'r rhaglen waith a ragwelir yn y dyfodol a rhagolygon gwariant lefel uchel amcangyfrifedig.
- Datblygu dull rheoli buddion yn unol â RIF a'r fframwaith canlyniadau ehangach. Technoleg ddigidol fel galluogwr a pha mor amlwg y mae angen i hyn fod mewn unrhyw lasbrint/gwaith cynllunio datblygiadau yn y dyfodol.
- Gofynion refeniw a chanlyniadau, ynghyd â phwysigrwydd parhad yn y tymor hwy os yw'r uchelgeisiau ar gyfer rhaglen 10 mlynedd i'w gwireddu.

Byddwn yn cysylltu â phob rhanbarth i drafod eu cynlluniau a'u gweledigaethau cychwynnol, a bydd rhai cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu trefnu ar sail ehangach gyda rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn adeiladu ar ymgysylltu a chyfathrebu rhanbarthol presennol ledled gorllewin Cymru, ac yn datblygu hynny.

## Byw â Chymorth - Llanelli

Mae The Bay, yn Llanelli, a oedd gynt yn dŷ tafarn ar wahân, wedi'i gaffael gan Gyngor Sir Caerfyrddin a bydd yn cael ei ailddatblygu'n dai arbenigol i ddarparu llety â chymorth a rennir i unigolion ag anableddau dysgu ac anawsterau iechyd meddwl.

Drwy addasu'r eiddo darperir pum ystafell wely ensuite, ynghyd â chegin, ystafell fwyta ac ystafell fyw gymunedol a rennir, swyddfa ar wahân, toiled a lleoedd parcio oddi ar y ffordd. Bydd yn hyrwyddo byw'n annibynnol sy'n bodloni'r galw am dai arbenigol nawr ac yn y

dyfodol, ac sy'n rhoi cyfle i unigolion symud ymlaen o lety teuluol ac yn atal lleoliadau diangen mewn gofal preswyl, yn y sir a'r tu allan iddi.

Mae'r eiddo wedi'i leoli yn ward Glanymôr yn Llanelli ac mae mewn lleoliad canolog, gan gynnig mynediad da i amwynderau a chysylltiadau trafnidiaeth y dref.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi derbyn **£245,575** gan **Tai â Gofal (HCF)** i helpu i gaffael yr eiddo, a rhagwelir y bydd ymyrraeth bellach gan gronfa **Llywodraeth Cymru** yn cefnogi'r gwaith adnewyddu





## Byw â Chymorth - Hwlffordd

Mae Cyngor Sir Penfro, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Dewis Cyntaf, wedi llwyddo i gael tua £469,114 o gyllid **Tai â Gofal (HCF)** Amcan 1 gan **Lywodraeth Cymru** i gefnogi prosiect Portfield. Bydd y prosiect hwn yn targedu pobl ag anableddau dysgu ac unigolion â chyflyrau niwroamrywiol a niwroddatblygiadol.

Mae'r prosiect yn cynnwys caffael ac adnewyddu eiddo presennol yn Hwlffordd i ddarparu llety byw â chymorth. Mae wedi'i leoli mewn ardal breswyl ddwys, yn agos at amwynderau

lleol a chanol y dref. Prif amcan y prosiect yw helpu pobl ag anableddau dysgu i aros yn eu cartrefi eu hunain drwy ddatblygu llety byw â chymorth ychwanegol yn Sir Benfro. Gall yr eiddo hwn alluogi dau berson i rannu â chymorth a chefnogi un person i fyw mewn rhandy hunangynhwysol, a fydd yn helpu i ddiwallu'r angen lle mae pobl yn ei chael hi'n anodd rhannu ond lle mae arnynt angen mynediad at gymorth yn ôl yr angen.





FCHA

# Digwyddiadau i Dod

## Cynrychiolydd Dinasyddion a'r Trydydd Sector

Os hoffech ddod i'r cyfarfod nesaf ar Chwefror 19 2025, anfonwch neges atom at wwrpb@sirgar.gov.uk.

## RYDYM YN CROESAWU EICH BARN: BLAENORIAETHAU ARFAETHEDIG AR GYFER STRATEGAETH GOFALWYR NESAF GORLLEWIN CYMRU 2025-2030

**CAU: 3 Mawrth 2025**

Dylai gofalwyr di-dâl o bob oedran yng Ngorllewin Cymru fod yn weladwy, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a chael eu cefnogi. Dyma'r blaenoriaethau arfaethedig a fydd yn sylfaen Strategaeth Gofalwyr nesaf Gorllewin Cymru, ac maent yn seiliedig ar y sgyrsiau rydym wedi'u cael gyda gofalwyr a sefydliadau di-dâl sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl, dros y 9 mis diwethaf.

Rydym yn croesawu eich barn ac os hoffech helpu i lunio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer Strategaeth Gofalwyr 2025-2030, ewch i: Ymgynghoriad Blaenoriaethau Gofalwyr Gorllewin Cymru – West Wales Regional Partnership Board

Mae ymchwil yn dangos bod llawer o bobl yng Nghymru nad ydynt yn gweld eu hunain fel gofalwyr di-dâl. Os ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog yn rheolaidd nad yw o bosibl yn gallu ymdopi heb ryw fath o help, boed hynny'n siopa negeseuon neu ddarparu cymorth personol mwy dwys, byddech yn cael eich ystyried yn ofalwr di-dâl. Nid yw gofalwyr di-dâl bob amser angen neu eisiau cymorth, ond gall amgylchiadau newid, dros amser neu'n annisgwyl, gan arwain at argyfwng posibl neu ddirywiad mewn iechyd a llesiant.

## Digwyddiad Galw Heibio Cymorth Niwrowahanol Gorllewin Cymru

**Dydd Mercher 26th Mawrth 2025 10am - 4:00pm**

Canolfan Byw'n Dda Sir Gaerfyrddin, Adeilad 1, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, SA31 3HB

(Mynediad am ddim i bawb.)

**Ydych chi'n chwilio am gymorth niwrowahaniaeth yng ngorllewin Cymru?**

Mae gennym ystod o sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn dod i's digwyddiad i arddangos pa gefnogaeth sydd ganddynt ar gael ledled Gorllewin Cymru.

**Am ragor o wybodaeth am bwy sy'n mynychu, gweler yma:** Gorllewin Cymru Digwyddiad Cymorth Niwroddivergence 2025 – West Wales Regional Partnership Board

**Cofrestrwch am docynnau yma:** https://www.ticketsource.co.uk/west-wales-regional-partnership-board/e-aedmdm

**Ydych chi'n sefydliad, tîm neu grŵp cymorth sy'n cefnogi unigolion niwrowahanol?**

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan yn ein Digwyddiad Galw Heibio Cymorth Niwrowahanol Gorllewin Cymru. Rydym yn bwriadu dod â chymaint o wasanaethau a grwpiau cymorth at ei gilydd ar gyfer unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan grwpiau cymorth, sefydliadau'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol a sefydliadau preifat.

Y llynedd, daeth 400 o unigolion i ddigwyddiad tebyg a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym mis Mawrth 2024. Eleni, ein nod yw adeiladu ar y llwyddiant, a datblygu digwyddiad rhanbarthol.

Gwybodaeth sydd ei hangen arnom gennych chi:

- Enw eich sefydliad, cynulleidfa a lleoliad
- Yr hyn yr hoffech ei ddarparu ar y diwrnod e.e. stondin gwybodaeth, gweithgaredd, cymorth / cyngor 1-1, arall.

**Cysylltwch i fynegi diddordeb**: wwrpb@sirgar.gov.uk

**I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad, gweler yma:** Gorllewin Cymru Digwyddiad Cymorth Niwroddivergence 2025 – West Wales Regional Partnership Board

## Ydych chi'n ein dilyn ni?

Rydym wedi dechrau tudalen LinkedIn yn ddiweddar. Cofiwch ein dilyn ni a sôn amdanom yn eich postiadau pan fyddwch yn cymryd rhan yn y gwaith a wnawn. Byddem wrth ein bodd yn clywed am hynny!

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

West Wales Regional Partnership Board

on Facebook @PGGCWWCP

on Instagram @PGGCWWCP

on X @PGGCWWCP

on LinkedIn @ West Wales Regional Partnership Board

on our website @ https://www.wwrpb.org.uk/

## Cysylltu â ni!

Os oes gennych gynnwys yr hoffech ei rannu ar draws ein sianeli yn y cyfryngau, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni ar wwrpb@sirgar.gov.uk Y tîm yn edrych ymlaen at glywed gennych chi a datblygu'r llythyr newyddion yn adnodd defnyddiol a llawn gwybodaeth. Bydd eich adborth yn ein helpu i gyflawni hynny, ac yn sicrhau bod y llythyr newyddion yn cael ei ddosbarthu ac yn cael ei ddarllen!

#WWRPB
@PGGCWWCP

Ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf: www.wwrpb.org.uk

Ymholiadau pellach: wwrpb@carmarthenshire.gov.uk